# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 14 GORFFENNAF 2022

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Elin Hywel, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Dewi Owen, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson a Rhys Tudur.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2022/23.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Cai Larsen yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2022/23.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Gareth Tudor Jones a Sasha Williams a Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022 fel rhai cywir.

## 7. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD

Gwahoddwyd y pwyllgor i enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor yn y cyfarfodydd herio perfformiad fesul maes gwaith.

**PENDERFYNWYD enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad fesul maes gwaith fel a nodir isod:-**

- **Addysg – Y Cynghorwyr Jina Gwyrfai, Beth Lawton a Gwynfor Owen (unrhyw 2 o'r 3 i fynychu pob cyfarfod)**
- **Economi a Chymuned – Y Cynghorwyr Iwan Huws a Dewi Owen (gyda'r Cynghorydd Jina Gwyrfai wrth gefn)**
- **Cefnogaeth Gorfforaethol – Y Cynghorwyr Huw Rowlands a Paul Rowlinson**
- **Cyllid – Y Cynghorwyr Beth Lawton ac Elin Hywel**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.25 y.b.

**CADEIRYDD**